# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Tachwedd 2023 – Cyfrol 9– Rhifyn 2

## Siop a swyddfa bost gymunedol Llandyrnog

O'r diwedd, daeth y newyddion ym mis Medi fod ein cais am grant o £200,000 o Gronfa Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus a nawr yn ein galluogi i brynu adeilad y Swyddfa Bost yn Llandyrnog.

Mi fyddwn yn medru symud ymlaen i wneud gwelliannau a chael y siop a hwb caffi cymunedol ar agor.

Roedd y prosiect yn barod wedi derbyn un grant o £200,000 ac wedi codi dros £51,000 drwy gynnig Cyfranddaliadau Cymunedol. Mae'r cyfanswm nawr wedi cyrraedd y nod i symud y prosiect ymlaen.

Nos Fercher, 11 Hydref, daeth cynulleidfa dda i Neuadd y Pentre, gan gynnwys ein haelod seneddol Dr James Davies, i glywed y newyddion a'r gwaith fydd yn mynd ymlaen gyda'r gobaith o agor y siop cyn gynted â phosib.

Mae cyfle i unigolion wirfoddoli i gefnogi'r prosiect a mae nifer dda o bobol yn barod wedi cynnig. Os hoffai unrhyw un gael mwy o wybodaeth am ein prosiect gallwch ddarllen ein gwefan llandyrnogshop.com neu gysylltu â ni ar e-bost: Llandyrnogcommunityshop@btinternet.com.

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais*, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

## Storm yn gwneud stomp o'r Steddfod



Bu'n rhaid canslo'r paratoadau trylwyr at Eisteddfod Llandyrnog i gyd amser cinio ddydd Gwener 20fed gan fod Storm Babet wedi dod a'r dilyw efo hi!!



Daeth y llun diddorol uchod i'r golwg drwy law Dylan Wynne, mab Clwyd Wynne, a oedd yn berchen ar y siop ar un adeg. Roedd adeilad presennol y siop yn arfer bod yn ddau dŷ, sef Llys Meirion a Bryn Asaph. Tynnwyd y llun yn 1981.

Byddwch yn ofalus gyda'r tân gwyllt!

# Pytiau newyddion y pentre

**Pob dymuniad** da i Gwilym Evans, Veronica Roberts, Rachel Davies, Ian Glass, Earle Wright a John Barnett yn dilyn triniaeth ysbyty.

**Boreau coffi** Bore Sadwrn, 14 Hydref, cynhaliwyd Bore Coffi yn y Neuadd tuag at Woody's Lodge, elusen ar gyfer cyn-filwyr, a gwnaed elw o £216. Codwyd £450 tuag at eglwys St Tyrnog mewn bore coffi ar ddiwedd mis Hydref. Diolch am y gefnogaeth i'r ddau fore coffi.

**Llongyfarchiadau** i Dafydd Roberts, Erw Frân, a'i dîm – Tîm Trosedd Gamlins. Cawsant eu cydnabod yn fyd-eang, ac mae'r tîm bellach yn Arweinlyfr Cyfreithiol Chambers, y DU.

# Cymdeithas Hanes Llandyrnog a Llangwyfan

Ymunwch â ni yn ein bore coffi blynyddol fore Sadwrn, 25 Tachwedd am 10 o'r gloch yn Neuadd y Pentre – cyfle am sgwrs a rhoi'r byd yn ei le. Mynediad am ddim i bawb. Cacennau, stondinau cynnyrch cartref a raffl.

Bydd hwn yn gyfle i chi ddechrau'ch siopa am anrhegion Nadolig gan y byddwn yn gwerthu ein llyfrau yno – anrhegion delfrydol!!

Derbynnir cyfraniadau at y stondinau a'r raffl yn ddiolchgar. Edrychwn ymlaen at eich gweld!

CANCER RESEARCH UK

***Cangen Dyffryn Clwyd***

***Bore Coffi***

**Dydd Sadwrn 18 Tachwedd**

**10 – 11.30 yn Neuadd y Pentre**

Stondinau cacennau a chynnyrch gardd, raffl

Byddwn yn derbyn yn ddiolchgar unrhyw roddion

Croeso cynnes i bawb

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 6ed | Trefoil Guild, 2pm |
| Mawrth | 7fed | Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mercher | 8fed | Undeb y Mamau, 2pm |
| Mawrth | 14eg | Clwb Llyfrau, 10–11am |
| Mercher | 15fed | Tuesday Club 2–3pm |
| Mawrth | 21ain | Cyngor Cymuned, 7pm |
| Llun | 27ain | Clwb Cwiltio, 7pm |
| Mawrth | 28ain | Clwb Llyfrau, 10–11am |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Mercher | 1af | Côr 7.30–8.30pm |
| Sadwrn | 4ydd | Grŵp crefftau, 10am–4pm |
| Llun | 6ed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mercher | 8fed | Côr 7.30–8.30pm |
| Sadwrn | 11eg | Ffair grefftau 10am–3pm |
| Sul | 12fed | Llan Llanast 3.30–5pm |
| Llun | 13eg | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Mercher | 15ed | Côr 7.30–8.30pm |
| Sad | 18fed | Bore coffi – Ymchwil Cancr Cangen Dyffryn Clwyd 10am |
| Llun | 20fed | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |
| Sadwrn | 25ain | Bore coffi –<br>Y Gymdeithas Hanes 10am |
| Llun | 27ain | Brownies 5.30–7pm<br>Côr 7.30–9.30pm |

**I hurio'r neuadd, cysylltwch ag Ivan Butler ar 07799 570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com.**

# Ruth Griffith, DL



Falle eich bod yn meddwl am beth mae *DL* ar ôl fy enw yn sefyll? Dyma'r eglurhad! *DL* ydi *Deputy Lieutenant* yn Saesneg – sef Dirprwy Raglaw. Apwyntiad ydi hwn gan y Goron ac mae yna nifer o Ddirprwy Raglawiaid yn rhaglawiaeth Clwyd. Yn fy achos i, mi ges i fy mhenodi yn 1993 gan Syr William Gladstone, Arglwydd Raglaw'r adeg hynny, am fy ngwaith gwirfoddol gyda'r Geidiaid.

Mr Henry George Fetherstonhaugh OBE, DL, ydi Arglwydd Raglaw Clwyd erbyn hyn. Mae'r Dirprwy Raglawiaid yn cynrychioli'r Arglwydd Raglaw yn ei absenoldeb, e.e. mewn seremonïau lleol a digwyddiadau swyddogol, yn cynnwys agor arddangosfeydd neu sefydlu ficeriaid newydd. Mae amrediad eang o wahanol bobl yn dal y swyddi hyn. Teimlaf ei bod hi'n fraint cael gwasanaethu a dal y swydd hon.



**Gwasanaethau Tachwedd yn yr eglwys**

| | | |
|---|---|---|
| 5fed | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 12ed | **10.55** | Sul y Cofio |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 19eg | 11.15 | Boreol weddi |
| | 15.30 | Gwasanaeth cofio a diolch |
| 26ain | 11.15 | Cymun bendigaid |

# Llan Llanast

Dathlu'r Cynhaeaf oedd thema ein cyfarfod mis Hydref. Dysgom ni o ble mae ein bwyd yn dod, sylweddoli ein bod yn lwcus iawn a dylem ni fod yn ddiolchgar iawn am bopeth sydd gennym ni – nid ydi pawb mor ffodus â ninnau. Roedd yn braf cael croesawu'r Parch. Rebecca, Arweinydd yr Ardal Genhadaeth i'n cyfarfod a gobeithio ei bod wedi mwynhau gwneud yr holl weithgareddau!

*Mary Steel*




**Townsend Supplies**
**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Dod i adnabod ... Dei Owen

Cefais fy ngeni yn Knaresborough yn Harrogate ac fe gawsom ddod i fyw at Nain a Taid pan o'n i tua blwydd oed a dyna le cawsom ein magu mewn tŷ cyngor yn y Groes ger Dinbych.

Mi ges i flynyddoedd hapus yn Ysgol Rhydgaled ac wedyn yn Ysgol Glan Clwyd, a gwneud ffrindiau da yn y ddwy ysgol. Ond, a deud y gwir, doedd gen i ddim cymaint â hynny o ddiddordeb mewn ysgol – fy hobi go iawn i oedd chwarae pêl-droed ddydd a nos!

Cychwynnais ddilyn tîm Lerpwl yn saith mlwydd oed, a mynd i Anfield a gemau oddi cartref, oedd y pethe pwysicaf i mi, gyda fy nhad. Mae Guto'r mab yn dilyn Lerpwl rŵan, felly 3 cenhedlaeth o'r teulu wedi bod yn ffans mawr o Lerpwl. Rwyf nawr yn 57 mlwydd oed, felly wedi bod yn mynd am hanner cant o flynyddoedd i'w gweld! Erbyn hyn rwyf yn briod ag Elen ers 30 mlynedd, a chawsom ddau o blant, sef Llio a Guto, a thrwy bopeth, rwyf yn dal i fynd i Lerpwl.

Ar ôl gadel ysgol yn 16, es i weithio at Ioan Evans (Yogi) yn Nhafarn Bryntrillyn – *Sportsmans Arms*, Mynydd Hiraethog, ac aros yno nes oeddwn i'n 24. Roedd Ioan yn gymeriad da ac yn ddyn ddaru ddysgu fi am fywyd – roedd o fel tad i mi. Gweithio'n galed, ond fel maen nhw'n dweud yn yr iaith fain, '*work hard, play hard'* ac roedd digon o hwyl yn y dafarn. Mi ddysgais sut i weithio yn galed i gael prynu pethau da. Wrth wneud hyn, mi ddechreues i feddwl y gallwn i weithio i fi fy hun.

A dyna lle ddaru *Lite Bite* gael ei eni! Gweithio yn galed ddydd a nos am 12 mlynedd yn gwneud brechdanau amrywiol. Y diwrnod cyntaf, mi ddaru ni werthu 12 brechdan. Pan ddaru ni werthu'r busnes roedden ni'n gwneud tua 20,000 bob diwrnod!! Eto, roedd digon o hwyl i'w gael. Ar ôl 3 blynedd, cefais ddiwrnod cyfa' i ffwrdd i briodi Elen yn 1993, a hefyd amser i ddal i fynd i Lerpwl!!

O ble daeth y cwmni *Teithiau Prydlon* rydw i'n eich clywed chi'n gofyn? Wel, cwestiwn da! Prynais fws mini i fynd i'r bêl droed yn 2013, ac un noson gofynnodd rhywun i mi fynd â nhw i briodas yng Nghaer – a dod â nhw adref!! Erbyn hyn, mae gynnon ni 9 cerbyd ac yn cyflogi 6 o bobol leol.

Un o'r pethau pwysig sydd wedi dod allan o *Teithiau Prydlon* yw'r holl ffrindiau newydd rydym wedi eu gwneud yn mynd 'nôl a 'mlaen i'r maes awyr, a gweld y plant yn mynd i'r ysgol ac yn tyfu i fyny ac yn mynd i weithio neu fynd ymlaen i addysg bellach.

Dyma'r geiriau pwysig yn fy mywyd – Nain, Taid, Dad, Elen, Llio, Guto, ffrindiau, Yogi, gwaith caled a bod yn hapus. AC, wrth gwrs tîm pêl-droed Lerpwl!!! Peidiwch â gofyn i mi pa air ydi'r pwysicaf!!

*(Diolch Dei am rannu eich profiadau)*






Mae crefftwyr y pentre yn dod at ei gilydd i gynnig marchnad Nadolig i chi gael dechrau prynu anrhegion. Bydd llawer o anrhegion Nadolig hyfryd ar gael, a bydd ein Brownies lleol yn darparu lluniaeth. Beth bynnag byddwch yn ei brynu, hyd yn oed dim ond paned a chacen, yn cefnogi'r gymdogaeth leol.

# Hwb Llandyrnog

Dyddiad nesa'r caffi dros dro ym mhafiliwn Cae Nant fydd dydd Mercher, 22 Tachwedd, 11 y bore dan 3 y pnawn.

**Oriau agor Swyddfa'r Post**
**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606

# Capel y Dyffryn

**Gwasanaethau mis Tachwedd**

*05/11* ***9.45*** *Cyfarfod Gweddi*
*12/11 10.45 Sul y Cofio (Eglwys St Tyrnog)*
*19/11 9.45 Parch Nerys Griffiths*
*26/11 9.45 Parch Andras Iago*

Bore Sul, 8 Hydref, cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch y Plant hyfryd iawn yng ngofal Lona a Gwenan, gyda'r capel wedi ei addurno'n hardd gan Nia a Gwyn.



***Y Gymdeithas*** Cynhaliwyd Swper Agoriadol y Gymdeithas Nos Lun 9 Hydref. Cafwyd bwffe hyfryd dros ben gydag Ann, Gwenan, Lona a Nia yng ngofal y gweini. Yna cafwyd amrywiaeth o ganu *ensemble*, unawdau a deuawdau o'r radd flaenaf gan Beca, (*Sgubor Efa*) a'i ffrindiau o Ysgol Brynhyfryd – Branwen, Georgia a Hanna. Addurnodd Nia Dregoch y festri'n hardd gan drefniannau blodau hydrefol. Diolchwyd yn gynnes iawn i bawb gan Rhys Davies (*Cadeirydd*) am noson hyfryd.



*O'r chwith: Beca, Hanna, Georgia a Branwen*

# Rysáit

### *Cacen Sinsir Parkin*

Ydech chi'n mynd i gael parti da i ddathlu diwrnod Guto Ffowc 'leni? Yr hen blant yn ymestyn eu gyddfau i ryfeddu at sŵn rocedi a'r tân gwyllt o liwiau'r enfys, a gwneud cylchoedd efo'r sbarciwrs? A digon o sosej, 'fale toffi a phethe melys i bawb? Wel, dyma i chi syniad am gacen wahanol – *Cacen Parkin* – sy'n dal yn boblogaidd iawn yn Swydd Efrog a Chaerhirfryn heddiw.

Roedd y ddwy sir yn rhan o'r Hen Ogledd a byddai'n cyndeidiau ni, y Brythoniaid, yn dathlu diwedd y cynhaeaf a dechrau'r gaeaf ar Dachwedd 1af gyda Gŵyl Samhain – ein Calan Gaeaf ni. Wrth i Gristionogaeth ledu yn yr ardal tua'r 4edd Ganrif, addaswyd gŵyl baganaidd y Samhain i fod yn un Cristnogol, a'i galw'n Ŵyl yr Holl Saint, a'r noson gynt yn Noswyl yr Holl Saint (*Calan Gaeaf*). Amser felly i ddathlu a chynnau coelcerthi!

Ond yn 1605, cynllwyniodd grŵp o Babyddion selog i gael gwared â Phrotestaniaeth drwy chwythu'r Senedd ac Iago'r 1af i ebargofiant. Fisoedd yn ddiweddarach daeth *Deddf Cadwraeth 5ed o Dachwedd* o'r Senedd – diwrnod rhydd i bawb i ddiolch bod y cynllwyn wedi methu! Diwrnod prin o ryddid, ac eto, roedd **rhaid** i bawb fynd i Eglwys i ddangos eu diolchgarwch. Ym mhen amser, daeth Tachwedd 5ed yn well esgus i ddathlu, cael parti, gwledda a thanio, na dechrau'r mis.

Erbyn y 18fed Ganrif, roedd Swydd Efrog a Chaerhirfryn wedi datblygu eu cacen draddodiadol eu hunain i'w bwyta ar Noson Tân Gwyllt – y dorth sinsir arferol ond mymryn yn wahanol. Roedd rhai hyd yn oed yn galw Noson Guto Ffowc yn *Noson Parkin*. Pam Parkin? – cyfenw reit gyffredin yn Swydd Efrog, medden nhw.

Dyma hi:
200g o fenyn
85g o driog
1 wy mawr
4 llwy fwrdd o laeth
200 o driog melyn
85g o siwgwr brown golau
100g o flawd ceirch neu *Porridge Oats* wedi'u torri'n fân
250g o flawd codi
1 llwy fwrdd o sinsir mâl

Rhowch y popty ar wres o 160 °C/ ffan 140 °C/ nwy 3. Taenwch dun sgwâr 22cm efo menyn a rhoi papur gwrthsaim ar y gwaelod. Curwch yr wy a'r llefrith efo'i gilydd efo fforc.
Toddwch y triog melyn, y siwgwr, y triog a'r menyn yn ara' deg mewn sosban fawr, yna'i thynnu oddi ar y gwres. Cymysgwch y blawd codi a'r blawd ceirch a'r sinsir, yna ei dywallt yn ara' deg i mewn i'r cymysgedd yn y sosban. Rhowch y cymysgedd yn y tun a'i goginio am 50 munud i 1 awr, nes i'r gacen deimlo'n grystiog ar y top. Gadewch iddi oeri yn y tun, yna'i lapio mewn papur gwrthsaim a ffoil.

*Os yw'n bosib, peidiwch â bwyta'r gacen am hyd at 5 diwrnod – mi geith amser i fod yn fwy meddal a gludiog!*



**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.

# Llwybr y Pererinion: Maes-glas i Drelawnyd

Dwi'n siŵr eich bod i gyd yn gyfarwydd efo hanes y Seintiau ar eu pererindod i Ynys Enlli. Mae'r llwybr yn dechrau o Abaty Dinas Basing ger Maes-glas gan ddilyn mynydd-dir ac arfordir am 130 milltir i gyrraedd Aberdaron, cyn croesi i Enlli.

Wedi darllen dipyn bach am y daith, dyma benderfynu'n reit sydyn fy mod am geisio – tros gyfnod go helaeth, a chyn i mi fynd yn rhy hen, wrth gwrs – gwneud rhywfaint o'r daith.



Rhan gyntaf fy nhaith oedd o Abaty Dinas Basing i Drelawnyd. Y Sistersiaid a sefydlodd yr abaty yn y ddeuddegfed ganrif. Yn ystod teyrnasiad Harri VIII a'i ddeddf Diddymu daeth ei defnydd i ben yn 1536.

I gyrraedd Treffynnon, rhaid dringo i fyny Dyffryn Maes-glas. Ar ôl cyrraedd Treffynnon, dilyn y llwybr wedyn ar draws caeau a gweld golygfeydd anhygoel tros afon Dyfrdwy i Benrhyn Cilgwri. Braf iawn oedd cael yr amser i astudio'r olygfa – tydan ni wastad ar hast!

Dyma gyrraedd Pantasaph a chipolwg yn unig ar yr eglwys fel y mae hi heddiw, ond mae'r cyfeiriadau cynnar iddi oddeutu 1536.



Dod o hyd i'r llwybr eto ac anelu am Chwitffordd. Mae eglwys y Santes Fair a Sant Beuno yn y pentre ar y llwybr. Sefydlwyd hon gan St Beuno yn y seithfed ganrif ac mae cyfeiriad ati yn y *Domesday Book* yn 1083. Dioddefodd yr adeilad gwreiddiol ddifrod sylweddol yn ystod ymgyrch Edward 1af ond ers y cyfnod yna, mae wedi ei hailadeiladu yn ysblennydd iawn. Y gred ydi mai cyfoeth y teulu Mostyn sy'n gyfrifol am hyn.

Amser cinio erbyn hyn – ffeindio 'bus shelter' digon taclus. Lle i eistedd a rhoi 'mhen i lawr am ryw hanner awr – a chael y map allan, wrth gwrs!



O Chwitffordd rwan anelu am le difyr iawn – Maen Achwyfan. Er fy mod wedi dreifio heibio'r safle ddegau o weithiau yn y car, wyddwn ni ddim am hwn. Dywed rhai bod Achwyfan yn cyfeirio at y saint o'r seithfed ganrif, Cwyfan.

Mae'r maen yn 3.4m o uchder ac wedi ei cherfio o un darn o garreg. Mae croes olwyn fel cap arno ac mae dylanwad Celtaidd a Llychlynaidd ar y cerfio sydd arno. Fe saif yng nghanol cae, ddim ond rhyw 100m o'r ffordd fawr. Cerwch yna i'w weld – mae yna rhywbeth hudolus o'i gwmpas ond yn anffodus does dim bosib cyffwrdd ynddo. Efallai wir mai dyna pam mae'r cerfio wedi goroesi cyhyd.

Oddi ar y ffordd rŵan ar draws caeau a dilyn y llwybr i Lanasa – rhyw ddwy neu dair milltir dwi'n siŵr. Argol, mae Sir y Fflint yn lle hyfryd iawn unwaith mae rywun oddiar y priffyrdd.

Mae eglwys Llanasa wedi ei chysegru i ddau saint – Cyndeyrn ac Asaff – ac fe gafodd yr eglwys gyntaf ei hadeiladu yn y 15ed ganrif. Talfyriad o Llanasaff ydi Llanasa.

Mae yna gofeb o fewn yr eglwys yn cyfeirio at y 13 o aelodau bad achub y Parlwr Du a gollodd eu bywydau yn Ionawr 1857 wrth geisio achub morwyr oddi ar sgwner o Belfast. Yn rhyfeddol, o fewn pump wythnos i golli'r bad gwreiddiol, roedd un arall wedi ei adeiladu ac aelodau teuluoedd y rhai a gollodd eu bywydau oedd y criw newydd.

Mi wna i adael yr hanes yn y fan yna am rŵan – gadael Llanasa a dilyn y llwybr efo'r arwydd nes cyrraedd y car roeddwn wedi ei adael yn Trelawnyd. Roeddwn i'n reit falch o weld yr hen gar ddweud y gwir!

*Bryn Davies*



# Hanesion Hazel



Dyma’r mis i werthfawrogi a dathlu ein coed gan fod tymor llawn yr hydref ar ein gwarthaf a’r hydref meteoregol yn gorffen 30ain Tachwedd. Cawsom ni batrymau o dywydd anghyffredin iawn y flwyddyn hon, ac o ganlyniad, ryden ni wedi gweld newid graddol hwyrach nag arfer yn lliwiau’r hydref. Cawsom ni haf estynedig ymhell i fis Medi, a thywydd sych a chynnes, a daeth mis Hydref i’w derfyn gyda glaw trwm a llifogydd oherwydd Storm Babet.



Yn yr ardd lysiau, mae’r ffa dringo’n dal i dyfu, y coed afalau yn eu gogoniant a’r pys pêr yn dal i flodeuo. Amser cinio, does dim byd gwell na chasglu tomato aeddfed, llawn sudd, o’r tŷ gwydr, a’i rhoi at frechdan gaws! Mae’r tomatos *Gardener’s Delight* yn blasu’n hyfryd yn syth o’r planhigyn, ac maen nhw’n dal i ddwyn ffrwyth – falle ca’ i eu mwynhau nhw hyd at fis Rhagfyr? Gwrandwch ar hyn ’te? Mi benderfynodd un iâr bod hi’n amser da i gael gori; er mod i’n ceisio’i darbwyllo fel arall, a’i symud o’r nyth, gwrthod wnaeth hi! Fydde hi ddim yn deg gadael iddi – fydde’r cywion ddim yn ffynnu yn yr oerfel a’r tywydd gwlyb. Felly, ’rôl brwydr hir rhyngo’ i a’r iâr, y fi gafodd y gore ohoni yn y diwedd! Ar yr ochr gadarnhaol, mae hi wedi cychwyn ail-ddodwy, tra bod y lleill yn bwrw’u plu a chael eu seibiant gaeafol. Maen nhw i’w gweld yn achlysurol ar ddiwrnod heulog yn gorwedd o dan y gwrych ffawydd yn torheulo gyda’u hadenydd ar led – mae’n ffordd dda i gynhesu ar ddiwrnod oer!

Mae’r planhigion sgwosh *Gem* a gefais gan gyd-weithiwr wedi cynhyrchu digon o ffrwythau crwn, gwyrdd, maint pêl tenis. Maen nhw’n uchel mewn ffibr, isel mewn calorïau a gellir eu torri’n hanner, a’u coginio yn y popty – maen nhw’n flasus efo india-corn. Hynny ydi, os oes gennych chi india-corn, wrth gwrs! Roedd cobiau’r india-corn yn aeddfedu’n dda, a phenderfynes eu gadael am wythnos arall cyn eu cynaeafu – camgymeriad dybryd! Yn ystod yr wythnos honno, dyma rywbeth yn tynnu pob cnewyllyn melys o’r planhigion. Roeddwn i wedi gweld wiwer haerllug yn loetran yng nghaeau cymydog; rydw i’n ffodus mod wedi osgoi wiwerod yn yr ardd cyn hyn ond yr oedd hon wedi canfod fy india-corn, stwffio’i hun a difetha’r cnwd yn llwyr! Dwi’n meddwl mai hon oedd ar fai, ond pwy bynnag fwytaodd y cnwd yma, roedd o wedi’i ddifetha’n llwyr. Beth bynnag, er y drychineb, roedd ’na rai llwyddiannau hefyd – rydw i’n mwynhau codi’r tatws newydd sy’n flasus dros ben wedi’u berwi gyda sbrigyn neu ddau o mint gardd.

Mi fedra i fod yn greulon efo planhigion sydd ddim yn tyfu’n dda neu’n tyfu gormod, a dyma’r adeg i gael gwared â’r ‘cnafon’ gardd ’ma! Mae gen i wifwrnwydd – *Viburnum rhytidophyllum* – sydd wedi tyfu’n wyllt ac angen ei docio’n galed, ond mi arhosa i hyd nes bod cyw’r golomen dorchog wedi magu plu. Fel arall, dyma’r amser i drawsblannu llwyni, eu torri i lawr, codi cymaint ag y medrwch o’r belen-wraidd o’r pridd a’u hailblannu – falle aiff blwyddyn neu ddwy heibio cyn eu bod nhw’n ailgydio ac aildyfu yn eu lle newydd.

I mi, mae Tachwedd yn teimlo fel amser gaeafu cyn cychwyn y tymor gwledda, ond mae pethau’n dal i ddigwydd ac mae’n fis i’w fwynhau i’r eithaf. Ewch allan a mwynhau tymereddau perffaith, oherwydd, yn rhy fuan o lawer, bydd yr eira a’r rhew yma.

Hazel

# Sefydliad y Merched

Mae’r rhaglen flynyddol wedi bod yn wych eleni, a rhai siaradwyr diddorol dros ben: Hosbis Sant Cyndeyrn; sgwrs bywyd gwyllt ar tsimpansïaid; perchnogion Tŷ Gwyrdd, Dinbych; cynrychiolydd Dementia UK, a hefyd Woody’s Lodge, elusen i gyn-filwyr. Mae’r grŵp wedi codi arian mewn amrywiol ffyrdd tuag at gynorthwyo’r grŵp ac at y gymuned leol – cynnal bore hwyliog i ddathlu’r coroni, gwneud te yn Sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog a’r Sioe Geffylau leol.

Mae’r aelodau wedi arddangos eitemau yn sioe Caerwys, ac wedi mynychu hyfforddiant ar rolau swyddogion ac un yn ein cynrychioli yng Nghynhadledd Cymru. Buont hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cyfarfodydd fel crefftau a gemau Nadolig a threfnu blodau mewn cyfarfod agored yng Nghlawddnewydd. Gwnaeth 6 aelod gefnogi sioe ffasiwn Sant Cyndeyrn, ac rydym wedi cyfarfod am de yng nghartrefi ein gilydd, cael cinio yn yr hosbis, teithio i Erddi Bodnant a’r Gwaith Haearn yng Nghroesoswallt, gan gymryd mantais o gynigion y Sefydliad. Y daith ddiweddaraf oedd i amgueddfa’r 50au yn Ninbych i ddathlu pen blwydd un o’n haelodau.

Mae gweithgareddau’r grŵp wedi eu rhannu yn y papur lleol ynghyd â’r *Bedol*. Rydym ni’n gobeithio rhannu hanes ein gweithgareddau yn *Clwyd Connections* yn y dyfodol. Mae’r grŵp wedi trefnu cinio Dolig, ac mae croeso cynnes iawn i aelodau a syniadau newydd. Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn a phawb wedi mwynhau.

Os hoffech chi ymuno â ni ar 7fed Tachwedd am ‘*gyfarfod blasu*’ am ddim, mae gennym ni weithdy crefftau ar gyfer y Nadolig – croeso cynnes i bawb i’r Ystafellodd Coco am 7pm.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â’r ysgrifennydd Jane Borthwick ar 07549 938369 neu janeborthwick56@gmail.com os gwelwch yn dda.

# Clwb Probus

Yng nghyfarfod mis Hydref Clwb Probus Dinbych a’r Cyffiniau, y siaradwraig wadd oedd Gwenno Jones, sydd yn gweithio ar Brosiect Awyr Dywyll Tirwedd Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy. Bwriad y prosiect ydi cydweithio â chymunedau a busnesau i wella eu golau er mwyn lleihau llygredd golau, ar gyfer bioamrywiaeth a iechyd dynol.

Ar hyn o bryd mae 4 safle awyr dywyll ar Fryniau Dyffryn Clwyd – yn eu plith, maes parcio Llangwyfan. Cafwyd sesiwn cwestiwn-ac-ateb yn dilyn y sgwrs.

Bydd Cyfarfod Blynyddol y Clwb yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd, ac ar ddydd Llun 4 Rhagfyr, y siaradwr gwadd fydd Gareth Foulkes, Llandyrnog, fydd yn sgwrsio am ffermio hen-ffasiwn modern.

# Undeb y Mamau

Yn ein cyfarfod mis Hydref gwnaethom ni lenwi bocsys ar gyfer ‘*Operation Christmas Child*’. Y sialens gyntaf oedd gwneud y bocsys, ond roedd gennym Winnie wrth law i helpu, gan ei bod yn arbenigwraig ar y gwaith hwn! Mae’n braf meddwl y bydd y bocsys yma’n dod â hapusrwydd i blant sydd mewn angen ar draws y byd. Enillydd y cwis oedd Carolyn. Dilynwyd hyn gan ein paned a chacen arferol!

*Mary Steel*




# Ysgol Bryn Clwyd



Bu'r Dosbarth Iau yn dysgu am fapiau ac am ein hardal leol. Yn *dysgu'n annibynnol* maen nhw wedi bod yn dylunio a gwneud model 3D o dref newydd i Sir Ddinbych. Cafodd un grŵp wobr '*Ethical Eddie*' am feddwl sut i gartrefu'r digartref yn eu tref.

Ymwelodd Rod o Ganolfan Sgiliau Coedwig, Bodfari â'r ysgol a dysgu'r disgyblion am y planhigion a'r blodau sydd yn tyfu ar faes yr ysgol. Yna, aeth y dosbarth ar daith natur o gwmpas y pentre, dysgu sut i storio lluniau mewn albymiau ar ipadau. Ysbrydolodd y lluniau nhw i wneud paentiadau dyfrlliw o fywyd gwyllt lleol a phryfed.



Tra ar eu taith natur bu'r disgyblion ym mynwent yr Eglwys a thalu teyrnged wrth fedd cyn-bennaeth ysgol gynradd Llandyrnog.

Mae'r disgyblion wedi bod yn ymarfer yn galed ar gyfer Eisteddfod Llandyrnog ac roedden nhw'n llawn cyffro wrth feddwl am gystadlu! Yn anffodus, cafodd yr Eisteddfod ei chanslo oherwydd y tywydd, ond cafodd y plant a oedd yn llwyddiannus yn y cystadlaethau gwaith cartref celf eu gwobrau yn yr ysgol.






# Ysgol Bryn Clwyd: parhad

Cafodd y Dosbarth Babanod amser ardderchog yn y Jamborî. Roedd yn wych gweld Mr Urdd yno hefyd!



Maen nhw hefyd wedi bod yn dysgu am eu hardal leol – tynnu llun yr olygfa o gae’r ysgol a gwneud tirlun.



Maen nhw hefyd wedi bod yn gwneud gwaith ymchwil i dref Dinbych a gwneud e-lyfrau eu hunain am y dref. Yn y wers Gymraeg, mwynhaodd y disgyblion wylio ceir yn pasio’r ysgol a chadw cofnod o’r gwahanol liwiau.

Roedd y noson Calan Gaeaf i godi arian at yr ysgol yn llwyddiannus iawn ac yn hwyl garw. Diolch yn fawr i’r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu gwaith caled yn eu drefnu.





Dymuniadau da i Mrs Woodward sy’n ymddeol ar ôl 13 blynedd yn yr ysgol. Bydd yn chwith ar ei hôl hi, i’r disgyblion ac i’r staff!!



# Tuesday Club

Ar ddechrau cyfarfod mis Hydref, rhoddwyd teyrnged fer i Glenys, cyn-drefnydd ffyddlon y clwb am 17 mlynedd. Hefyd, cydymdeimlwyd â Bernard a Jennifer Thomas ar golli eu merch, Jane. Cafwyd munud o dawelwch i gofio am Glenys a Jane a hefyd am Jack Crowther a fu farw'r mis diwetha.

Y siaradwraig wadd oedd Fiona Macpherson sy'n gwneud cacennau dathlu o dan yr enw *For the love of cake*. Roedd ganddi ystafelloedd te yn Rhuddlan cyn y pandemig, ond wedyn penderfynodd barhau â'r busnes o wneud cacennau dathlu o'i chartref yn Llandyrnog. Cawsom sgwrs ddiddorol am ei chefndir – ei mam a'i nain yn arbennig o dda am wneud cacennau, a Fiona yn penderfynu ennill ei bywoliaeth wrth addurno cacennau. Daeth â'i chacennau 'ffug' i'r cyfarfod mae hi'n eu harddangos mewn ffeiriau priodas, ac mae ei gwaith yn hynod o gywrain.



Mae hi hefyd yn creu addurniadau celfydd iawn ar gacennau pen blwydd – o ddyn yn pysgota, i ardd lysiau, i un o dramiau Pen y Gogarth! Os oes gennych chi gyfrif Facebook, ewch i *For the love of cake* i weld ei chreadigaethau anhygoel.




Gofynnwyd wedyn i'r aelodau beth fyddai eu dewis nhw o addurn ar gacen pen blwydd, a'r atebion yn ddiddorol – yn eu plith defaid, ci defaid, palet artist, a bwrdd snwcer! Roeddem yn ffodus iawn i gael blasu cacennau Fiona gyda'n paned arferol, gan iddi ddod â *brownies* a chacen lemon a mafon gyda hi.

Diolchwyd i Fiona am ei sgwrs ddiddorol iawn ac atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesa ddydd Mercher, 15 Tachwedd. Croeso cynnes i aelodau newydd – rydyn i'n griw cyfeillgar iawn!

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Neges gan ein hoffeiriad

‘Hanfod doethineb yw sylweddoli pa mor bell o ddoethineb ydych chi.’

*Rabbi Nachman*

Dywedir mai Rabbi Nachman, yr un ddechreuodd y mudiad Iddewig, Breslov Hasidic, ysgrifennodd y dyfyniad hwn ar ddechrau 19eg ganrif – mae o mor effeithiol ac mor wir! Gair gan ŵr o brofiad am ymdrech y bod dynol ar hyd yr oesau i geisio meithrin doethineb. Dywedir bod dau athronydd enwog y clasuron Groegaidd – Socrates a Plato, wedi dod i gasgliad tebyg hefyd “Rydyn ni’n gwybod nad ydyn ni’n gwybod **dim**”

Dyma’r gair Doethineb mewn ieithoedd eraill – Wisdom, Sophia (y gair Groegaidd), Chokmah (Hebreig), Hikmah (Arabaidd).

Felly, ydi o’n wir – y mwya feddyliwn ni ein bod ni’n gwybod, lleia’n y byd wyddwn ni? Gwir neu gau? O leiaf mae’r agwedd hon o deimlo’n annigonol yn siŵr o’n helpu i geisio gwir ddoethineb.



Pan oeddwn i yn Jerwsalem ar bererindod fis Mawrth eleni, mi wnes i gyfarfod â ffrind newydd ar fore Marathon Jerwsalem. Roedd o’n dod o Efrog Newydd, ac, fel fi, wrth ei fodd ym mynd i’r theatr. Y bore wedyn, aethom i Tel Aviv, ac, ar ôl coffi, aethom i weld cynhyrchiad gwerthfawr iawn am y profiad o fod yn ddall. Actorion dall oedd ar y llwyfan ac yn ceisio ein haddysgu ni ynglŷn â goblygiadau bod yn ddall drwy eu profiadau nhw eu hunain.

Wrth gwrs, roedd hyn yn yr amser pan oedd y Prif Weinidog Netanyahu yn dechrau’r broses o ailwampio’r system farnwrol gan fod cymaint yn y llysoedd yn dangos tueddiadau eithafol, a’r problemau yn sgil hynny i’r gwleidyddion. Roedd miloedd ar filoedd o brotestwyr ar y strydoedd yn mynnu tegwch.

Eglurodd Iddewes o Tel Aviv pa mor ofnus roedd hi ynglŷn â’r protestiadau, ac yn ofni gwaeth i ddod – ia, roedd hi’n ddigon doeth i ragweld beth oedd o’u blaenau.

Ar y 7fed o Hydref, fe ddaeth ei hofnau’n wir, ac rydym wedi gwylio’r teledu a darllen am erchyllterau sydd wedi digwydd, y bomiau ddisgynnodd ar gartrefi Palestiniaid ac Iddewon fel ei gilydd.

Ar ddechrau Tachwedd fel hyn, byddwn yn cael gwasanaethau i gofio am bawb a gollodd eu bywydau mewn rhyfeloedd. Ac eto, mae mwy a mwy o ryfeloedd yn ein byd ni. Gadewch i ni weddïo am heddwch yn Wcráin, heddwch yn Israel, heddwch ar Lain Gaza a heddwch i’r byd.

*Y Parch. Martin Pritchard*


GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I’W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

01745 815141
07808970364

E-bost: evansautoclinic@btconnect.com

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Hydref Cyngor Cymuned Llandyrnog

- Eitemau drafodwyd gan Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu: (*SCCH*)
  - Oliver’s Row – mae SCCH wedi rhybuddio perchnogion y cerbydau am barcio ar y palmant a’r rhwystrau posib. Ar adegau, anwybyddwyd y cyngor, ac mae o wedi gofyn am rybuddion ysgrifenedig i roi ar ffenestri ceir y rhai sy’n dal i barcio yno.
  - Mae patrolau Cae Nant mewn bod, ar sail ’os a phan fydd angen’. Os ydi pobl yn gweld ymddygiad niwsans, ffoniwch 101 neu ddefnyddio cyfleuster ‘*Webchat Heddlu’*. Os ydi’r SCCH ar ddyletswydd, fe ddaw draw.
  - Menter Diogelwch ar y Ffyrdd Sir Ddinbych. Mae hyn wedi tawelu ar hyn o bryd. Ar ôl siarad â rhieni y rhai y tybid eu bod yn gyfrifol, falle fod y sefyllfa wedi gwella.
  - Bydd SCCH yn trefnu sesiynau gyda Rebecca (Cyngor Sir Ddinbych) unwaith bydd y gwn cyflymder wedi ei drwsio a’i galibreiddio. Nid yw’n gweithio ar hyn o bryd.
  - 15/09/23. Lladrad offer/peiriannau dros nos o gynhwyswyr storio safle adeiladu newydd ar draws i Glanrafon.
  - 01/10/23. Car a ladratwyd wedi’i ddarganfod. Rhif Adnabod y Cerbyd (RhAC) a’r plât rhifau wedi eu newid. RhAC a’r plât rhifau cywir yn ôl ar y car.
- Clerc wedi sôn am arwydd coll o Gornel Brynllys.
- Hysbysiad fod arian 10fed rownd Fferm Wynt Brenig ar gael – Cynghorwyr Parry a McGuire i baratoi cais ar ran y Cyngor Cymuned.
- Gwelyau gardd uchel tu ôl i Nant Glyd – Stadau CSDd i benderfynu ar eu dyfodol yn dilyn ymgynghoriad â thenantiaid.
- Ymgynghoriad ar ostwng oriau Llyfrgelloedd – Clerc i baratoi ateb yn gwrthwynebu’r gostyngiad yn yr oriau.
- Golau Dangosydd Cyflymder – Clerc i ddiolch i GSDd am y gosodiad dros-dro, gan obeithio am ddatrysiad parhaol.
- Pryderon fod amserlenni bysiau naill ai heb eu diweddaru neu ddim ar gael – Clerc a’r Cyngh. Parry wedi gofyn i GSDd am eu polisi o arddangos amserlenni bysiau.
- Samuel Jones, Panel Craffu – cais am adborth o’i ymweliad ym mis Gorffennaf.
- Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol – dal i fynd yn ei flaen, ond mae’n bwysig fod y wybodaeth yn cael ei drosglwyddo ar gyfer ymateb unigol.



Diolch yn fawr i’r Clerc, Bryn Davies, a’r Cynghorydd Wright am blannau’r blodau ar gyfer y gaeaf ar y gylchfan. Edrychwn ymlaen at sioe liwgar dros y misoedd nesa.

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*